# Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 2024/25

14 Mawrth 2024

# Cynllun Blynyddol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 2024/25

Cyflwynwyd i Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â pharagraff 13(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (fel y'i diwygiwyd gan adran 40(3) o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020)

**14 Mawrth 2024**

CMA
Competition & Markets Authority

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn general.enquiries@cma.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4550-8

E03016726 12/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

**Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi**

# Cynnwys

Rhagair ... 2
1. Y CMA ... 5
2. Diweddaru ein Strategaeth ... 8
3. Diben ... 10
4. Uchelgais ... 12
5. Blaenoriaethau Tymor Canolig ... 13
6. Meysydd Ffocws ar gyfer 2024/25 ... 20
7. Mesur ein Heffaith ... 31
8. Adnoddau ... 33
9. Rhestr termau ... 35
10. Atodiad ...

# Rhagair

Yng Nghynllun Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom nodi strategaeth hirdymor newydd ar gyfer y CMA. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau, fel prif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU, ein bod yn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl, busnesau ac economi'r DU yn wyneb amgylchedd mwy anwadal, sy'n heriol yn economaidd ac sy'n tarfu ar dechnoleg i bawb.



Mae'r strategaeth y gwnaethom ei nodi y flwyddyn ddiwethaf yn edrych ymlaen dros sawl blwyddyn i'r dyfodol. Gwnaethom nodi ein diben cyson, sy'n deillio o'r brif ddyletswydd y mae'r Senedd wedi'i rhoi i'r CMA; y canlyniadau diriaethol rydym am eu cyflawni i bobl, busnesau a'r economi yn y DU dros yr hirdymor drwy gyflawni'r ddyletswydd honno; ein blaenoriaethau, y rhannau o'r farchnad y byddwn yn canolbwyntio arnynt, dros y tair blynedd nesaf; a sut y byddwn yn addasu ein model a'n galluoedd, unwaith eto dros y tymor canolig, er mwyn cyflawni'r nodau hynny.

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn ar gyfer 2024/25 yn parhau â'r strategaeth honno, yn adeiladu arni, ac yn diweddaru ein meysydd ffocws tymor agos dros y 12 mis nesaf wrth i ni wynebu'r cyfrifoldebau newydd y mae'r Senedd wedi'u rhoi i ni yn y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr.



Dros y 12 mis diwethaf, gan ddilyn ein strategaeth, mae'r amrywiaeth o waith y CMA a'r buddiannau a gyflawnwyd i ddefnyddwyr, busnesau sy'n bargeinio'n deg a'r economi, wedi bod yn gryfach nag erioed. Rydym wedi mynd ati'n ddygn i flaenoriaethau'r gwaith sydd gennym yn yr arfaeth ac wedi dyrannu adnoddau yn unol â'n blaenoriaethau ac, o fewn y rhain, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd lle gall CMA fod fwyaf dylanwadol. Rydym wedi dod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o adnoddau sydd gennym i ddod â dealltwriaeth, datrysiadau a buddiannau i farchnadoedd yn gyflymach. Rydym wedi diweddaru canllawiau ar sut rydym yn arfer ein swyddogaethau. Rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad â defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr, gyda'r trydydd sector, a gyda busnesau, grwpiau busnes a'u cynghorwyr, gan gynnal ein prosesau parhaus a chynhyrchiol o ryngweithio â'r Llywodraeth. Am ein bod wedi cynyddu ein gweithgarwch a'n heffaith, rydym wedi cynnal y gwrthrychedd digynsail sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r tryloywder llwyr sy'n nodweddiadol o ddull y DU o fynd i'r afael â chystadleuaeth a diogelu defnyddwyr. Rydym wedi annog mwy o brosesau craffu mwy rheolaidd gan Senedd y DU a'n Seneddau datganoledig ac rydym wedi gwrando, wedi dysgu ac wedi cyfathrebu mwy nag erioed o'r blaen.

Dylanwadwyd ar y diweddariad i'n Cynllun Blynyddol y flwyddyn hon gan ein hamgylchedd allanol, sydd wedi parhau i fod yn ansefydlog mewn sawl ffordd. Mae pobl a busnesau'n dal i orfod wynebu costau byw uwch a chostau cynnal busnes, pwysau cronnol oherwydd chwyddiant a chost uwch dyledion. Mae'r DU, fel gwledydd ledled y byd, yn parhau i ymdrechu i sicrhau twf economaidd uwch yn erbyn cefndir o gynhyrchiant disymud, dyled barhaus, gwrthdaro geo-wleidyddol a milwrol byd-eang a hinsawdd sy'n dirywio. Yn y cyfamser, mae'r chwyldro technolegol cynyddol yn parhau gyda datblygiadau nodedig mewn deallusrwydd artiffisial, ynghyd â modelau busnes sy'n datblygu'r un mor gyflym a chynghreiriau masnachol ymysg y prif gwmnïau, gyda goblygiadau a allai fod yn drawsnewidiol i'n heconomïau a'n cymdeithasau yn y dyfodol agos ynghyd â'r dyfodol pell.

Mae'r CMA wedi bod yn rhagweithiol yn mynd i'r afael â'r heriau y mae'r dirwedd newidiol hon yn ei chreu i bobl a busnesau ac mae ein cynllun ar gyfer 2024/25 yn parhau â'r dull penodol hwnnw. Yn y sefyllfa economaidd anodd a geir heddiw, mae marchnadoedd sy'n gweithredu'n briodol mor hanfodol ag erioed. Rydym wedi dwysáu ein hymdrechion i fynd i'r afael â chost byw, gan ganolbwyntio ar y meysydd sydd o bwys mwyaf i bobl – fel cael rhywle i fyw, bwydo ein teuluoedd, gofalu amdanom ein hunain ac eraill, a phrynu'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom ar-lein – a byddwn yn parhau i wneud hynny. Yn yr un modd, rydym wedi cymryd camau cadarn i ddiogelu marchnad agored, gystadleuol fel y gall yr holl fusnesau sy'n bargeinio'n deg, y rhai sy'n herio ac arloesi sydd am gystadlu gael gafael ar gwsmeriaid, marchnadoedd a'r mewnbwn sydd eu hangen arnynt i weithredu heb gael eu dal yn ôl gan weithredoedd gwrthgystadleuol ambell un. Ac o ystyried y gydberthynas glir rhwng cystadleuaeth, arloesedd a thwf, ynghyd â pha mor gyflym y mae technolegau newydd yn datblygu ac yn cael eu mabwysiadu, byddwn yn parhau i gyflawni dull sy'n edrych yn fwy penodol i'r dyfodol mewn marchnadoedd cychwynnol, er mwyn helpu'r marchnadoedd hynny i ddatblygu mewn cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr, ac felly ar gyfer arloesedd, buddsoddiad a thwf economaidd pellach yn yr hirdymor.

Gan edrych ymlaen at 2024-25, rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer cyfrifoldebau a phwerau newydd y CMA o dan Fil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr Llywodraeth y DU. Bydd y rhag-bwerau wedi'u targedu a ddarperir gan y Bil mewn marchnadoedd digidol yn galluogi'r CMA i fynd i'r afael â phroblemau cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr yn gyflym, yn gymesur ac yn effeithiol, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i arloesi'n barhaus yn y sectorau economaidd hanfodol hyn. Rydym hefyd yn croesawu'r penderfyniad i roi'r un pwyslais i gyfraith diogelu defnyddwyr ag i gyfraith cystadleuaeth drwy'r model gorfodi gweinyddol newydd. Ynghyd â'r gallu i roi dirwyon mwy llym, mae hyn yn atgyfnerthu ein gallu i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed masnachol ac i atal busnesau nad ydynt yn dilyn y rheolau.

Ar gyfer y tymor agos, felly, rydym wedi gwneud rhai diweddariadau wedi'u targedu i'n meysydd ffocws ar gyfer blwyddyn Cynllun Blynyddol 2024/25 i adlewyrchu'r datblygiadau hyn a datblygiadau allanol mwy uniongyrchol. Fel hynny, gallwn barhau i flaenoriaethu ein hymdrechion lle mae eu hangen fwyaf a lle gallant gyflawni'r gwerth mwyaf.

O safbwynt mwy hirdymor, nid yw'r grymoedd sylfaenol sy'n llywio'r amgylchedd allanol y mae'r economi yn gweithredu ynddo, ac a lywiodd ein strategaeth, wedi newid rhyw lawer; os unrhyw beth, maent wedi cyflymu. Fel corff annibynnol, gall y CMA gynnal safbwynt tymor hwy, gwrthrychol y grymoedd mwy sylfaenol hyn a phennu strategaeth tymor hwy sy'n rhoi swm rhesymol o sefydlogrwydd a sicrwydd i randdeiliaid ynghylch ein blaenoriaethau tair i bum mlynedd. Yn unol â hynny, dim ond newidiadau cyfyngedig y mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn eu gwneud i'r cyfeiriad tymor hwy hwnnw.



Mae ein cyfrifoldebau i ddiogelu defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth yn bwysig iawn i ni ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod ein gwaith o'r budd mwyaf i'r sawl rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn falch o hanes cryf y CMA yn cyflawni gwerth i'r DU. Dros y tair blynedd diwethaf yn unig, mae ein gwaith wedi sicrhau mwy nag £20 o fudd ariannol uniongyrchol i'n defnyddwyr am bob £1 o arian trethdalwyr a gaiff ei gwario, ac mae cyfanswm y budd anuniongyrchol i'r economi o'n gwaith – o farchnadoedd mwy agored, cystadleuol, mwy o arloesedd a llai o ymddygiad gwrthgystadleuol – yn enghraifft o hynny. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd. Dros y deuddeg mis nesaf, bydd pob un ohonom yn y CMA yn herio ein hunain i fod yn fwy effeithiol a chynhyrchiol yn y modd rydym yn gwneud ein gwaith, ac yn arbrofi â ffyrdd gwahanol o fesur a dangos effaith yr hyn a wnawn.

Roedd ein hymgynghoriad ar y cynigion a geir yn y Cynllun Blynyddol hwn yn rhan hanfodol o'n safbwynt. Rydym, fel bob amser, yn ddiolchgar am ehangder ac amrywiaeth y safbwyntiau a gafwyd yn sgil y broses hon, ac am y cyfle i ystyried barn ein rhanddeiliaid wrth bennu ein dull gweithredu.



**Marcus Bokkerink**

**Cadeirydd**



**Sarah Cardell**

**Prif Weithredwr**

## Y CMA

1.1 Mae'r CMA yn adran anweinidogol annibynnol o fewn Llywodraeth y DU a'r CMA yw prif awdurdod cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr y DU. Rydym yn helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.

1.2 Mae ein pwerau yn deillio o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013[1] a chaiff ein gwaith ei oruchwylio gan Fwrdd a'i arwain gan y Prif Weithredwr a'r uwch-dîm. Gwneir penderfyniadau mewn rhai ymchwiliadau gan aelodau annibynnol o Banel y CMA.

1.3 Ein prif swyddogaethau yw:

- Ymchwilio i gynlluniau uno a gallai leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Os bydd cynllun uno yn debygol o leihau cystadleuaeth yn sylweddol, gall y CMA ei atal neu osod rhwymedïau er mwyn mynd i'r afael â phryderon o'r fath.
- Ymchwilio i fusnesau er mwyn penderfynu a ydynt wedi torri cyfraith cystadleuaeth y DU ac, os felly, roi terfyn ar y fath achosion o dor-cyfraith a'u hatal rhag digwydd. Rydym yn cyflawni hyn drwy ddirwyo busnesau a cheisio sicrhau bod cyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw yn cael eu hanghymhwyso, yn ogystal â mynd ar drywydd unigolion sy'n cyflawni'r drosedd o ffurfio cartel anghyfreithlon.
- Gorfodi ystod o ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr, gan gynnwys mewn achosion lle mae triniaeth annheg yn erbyn defnyddwyr neu'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth wneud dewisiadau yn awgrymu bod problem systemig yn y farchnad.
- Cynnal astudiaethau neu ymchwiliadau neu wneud gwaith arall i farchnadoedd penodol lle yr amheuir bod problemau o ran cystadleuaeth a defnyddwyr. Gall y CMA gymryd camau – ac argymell bod camau yn cael eu cymryd gan eraill – mewn marchnadoedd lle nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n dda o bosibl.
- Rhoi gwybodaeth neu gyngor ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un o swyddogaethau'r CMA i lunwyr polisi a gweinidogion, gan gynnwys sut y gallant lunio polisi a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau manteision cystadleuaeth ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.

---

[1] Amlinellir pwerau Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae gan y CMA hefyd bwerau sy'n gysylltiedig â'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, sy'n deillio o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau llywodraethu'r CMA yma.

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl a busnesau am eu hawliau a'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr.
- Hyrwyddo cystadleuaeth gryfach yn y diwydiannau a reoleiddir (nwy, trydan, dŵr, hedfanaeth, rheilffyrdd, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol), gan weithio gyda rheoleiddwyr y sectorau.
- Cynnal apeliadau ac atgyfeiriadau rheoleiddiol mewn perthynas â systemau rheoli prisiau, telerau trwyddedau neu drefniadau rheoleiddio eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol.
- Rhoi cyngor, adrodd a monitro mewn perthynas â marchnad fewnol y DU, trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol.
- Rhoi cyngor, adrodd a monitro mewn perthynas â chymorthdaliadau'r llywodraeth, drwy'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau.
- Dadansoddi a chynnig arbenigedd ar faterion cystadleuaeth yn y DU, hawliau defnyddwyr, arloesi, cynhyrchiant a diwygiadau i'r ochr gyflenwi drwy'r Uned Ficro-economeg.

1.4 Mae cylch gorchwyl y CMA yn cwmpasu'r DU, gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain a Manceinion, yn ogystal ag Uned Ficro-economeg newydd i'w lleoli yn Darlington. Rydym yn gweithio mewn ffordd integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddewis yr adnoddau a fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol, yn ein barn ni, i bobl a busnesau, lle bynnag y maent yn byw ac yn gweithredu yn y pedair gwlad. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hadlewyrchu yn ein gofynion sylfaenol, sy'n gymwys ym mhob rhan o'n gwaith ac maent yn nodi sut rydym am ddefnyddio ein hadnoddau.

1.5 Cyflwynodd y Llywodraeth Fil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn Senedd y DU ym mis Ebrill 2023. Os caiff ei deddfu, bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi pwerau newydd i'r CMA i reoleiddio marchnadoedd digidol.

1.6 Bydd y Bil hefyd yn rhoi hwb i'n pwerau cystadleuaeth a defnyddwyr, gan gynnwys drwy gyflwyno model gorfodi gweinyddol ar gyfer diogelu defnyddwyr. Bydd hyn yn golygu y gall y CMA wneud penderfyniadau ynghylch pryd mae cyfraith diogelu defnyddwyr wedi cael ei thorri, a gosod dirwyon ar fusnesau sy'n gyfrifol am yr achosion hyn o dor-cyfraith.

1.7 Mae'r paratoadau i sicrhau ein bod yn barod i weithredu'r cyfundrefnau newydd hyn yn mynd rhagddynt yn dda.

1.8 Wrth i'r CMA ehangu i fodloni gofynion ein cyfrifoldebau a'n pwerau newydd, rydym am sicrhau y gallwn ddenu a chadw'r doniau gorau. Mae ein hymrwymiad i fod yn lle gwych i weithio wedi'i ymgorffori yn ein galluogwyr craidd. Mae'r rhain yn nodi'r hyn rydym yn ei wneud i ddiweddaru ein

datganiad gwerth i gyflogeion, a hefyd i addasu ein model busnes a gwella ein galluoedd hanfodol.

1.9 Rydym yn dal i fod yn benderfynol o feithrin gweithlu amrywiol a chynhwysol, gan gynnwys ar lefelau uwch, sy'n adlewyrchu ac yn deall y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu. Dyma ffocws ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a ategir gan ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, y bydd y ddau ar waith tan ddiwedd 2024. Byddwn yn lansio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer 2025 ymlaen. Gwnaethom ddiweddaru gwerthoedd y CMA (rhagoriaeth, seiliedig ar dystiolaeth, uchelgeisiol, cydweithredol, cynhwysol, parch) ar ddiwedd 2022 ac rydym yn parhau i'w hymgorffori yn ein gweithgarwch craidd.

# 1. Diweddaru ein Strategaeth

1.1 Mae Cynllun Blynyddol y CMA ar gyfer 2024/25 yn adeiladu ar y gwaith a wnaed y llynedd i ddatblygu ein strategaeth, gan gynnwys y diben, yr uchelgais a'r blaenoriaethau tymor canolig a bennwyd gennym y llynedd. Roedd y dull strategol newydd a gyflwynwyd gennym yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn rhagweld y grymoedd mawr sy'n effeithio ar y cyd-destun macroeconomaidd, technolegol, amgylcheddol, busnes a defnyddwyr y mae'r CMA yn gweithredu oddi mewn iddo. Roedd hefyd yn adlewyrchu newidiadau pwysig yn y sefydliad, gan gynnwys penodi Cadeirydd a Phrif Weithredwr newydd a chyfrifoldebau newydd ar gyfer y CMA yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â'r angen i fabwysiadu a datblygu ein ffyrdd o weithio. Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'n fframwaith strategol.

**Ffigur 1 – trosolwg o'n fframwaith strategol**




1.2 Bwriad ein buddsoddiad mewn dull strategol newydd yn 2023 oedd gosod sylfaen gadarn i sicrhau gwerth dros y degawd nesaf i'r rhai a wasanaethwn. Gwyddom fod sefyllfa'r CMA fel awdurdod annibynnol yn ein galluogi i bennu ein strategaeth dros y tymor hwy, a bod manteision i sicrhau parhad yn ein dull gweithredu. Felly, bwriedir i'n strategaeth roi lefel resymol o sefydlogrwydd a sicrwydd i randdeiliaid ynghylch ein dull gweithredu sylfaenol

dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Yn unol â hynny, dim ond newidiadau cyfyngedig y mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn eu gwneud i'r trywydd hwnnw.

1.3 Rydym wedi ystyried yn ofalus pa elfennau o'n strategaeth tymor canolig y dylid eu diweddaru ar gyfer 2024/25. Erys diben cyffredinol y CMA i **helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg** yr un fath, felly hefyd ein huchelgais o ran y canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni dros bobl, busnesau ac economi'r DU yn y tymor canolig a'r hirdymor. Erys ein gofynion sylfaenol, sy'n llywio penderfyniadau ynglyn â phryd a sut i weithredu er mwyn sicrhau buddiannau diriaethol cyn gynted â phosibl a defnyddio ystod lawn ein pecyn cymorth, yr un mor berthnasol ag yr oeddent y llynedd ac maent hefyd yn aros yn ddigyfnewid. Ceir rhagor o wybodaeth am ein diben yn adran 3, ein huchelgais yn adran 4, a'n gofynion sylfaenol yn adran 5.

1.4 Yn 2023/24, gwnaethom bennu ein blaenoriaethau tymor canolig ar gyfer cyfnod o dair blynedd. Er manteision cyfeiriad cyson yn y tymor canolig a'r hirdymor, mae'n bwysig hefyd fod strategaeth y CMA yn ddigon hyblyg i ddatblygu ochr yn ochr â'n cyd-destun allanol. Felly, rydym yn achub ar y cyfle hwn i ddiweddaru ein blaenoriaethau tymor canolig a'n galluogwyr craidd er mwyn adlewyrchu datblygiadau ers y llynedd.

1.5 Yn 2023/24, gwnaethom hefyd bennu ein meysydd ffocws arfaethedig ar gyfer y 12 mis nesaf. Rydym wedi adolygu ac wedi diwygio'r rhain ar gyfer 2024/25, gan adlewyrchu cynnydd ein hymyriadau diweddar a chyfredol a'r broses barhaus o gymhwyso ein blaenoriaethau tymor canolig at feysydd o angen a ragwelir. Ceir rhagor o wybodaeth am ein blaenoriaethau tymor canolig a'n galluogwyr craidd yn adran 5 a'r meysydd ffocws yn adran 6 (gan gynnwys y diweddariadau rydym wedi'u gwneud eleni).

1.6 Ceir trosolwg llawn o'n strategaeth yn yr atodiad.

# 2. Diben



3.1 Mae strategaeth y CMA yn deillio o'n diben cyffredinol: **helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg.**

3.2 Rhoddwn fwy o fanylion am hyn a'n huchelgais, sy'n deillio o'n diben, yn y ddwy adran ganlynol.

**Ffigur 1 Diben ac uchelgais y CMA**




3.3 Mae dwy elfen allweddol i'n diben:
<u>Pwy rydym yn eu gwasanaethu – **Pobl, busnesau ac economi'r DU:**</u>

- Dylai gwaith y CMA fod er budd pobl, nid yn unig fel defnyddwyr ond hefyd fel trethdalwyr a rhanddeiliaid yn ein cymdeithas.
- Pan fo'r CMA yn gweithredu i sicrhau cystadleuaeth effeithiol neu atal niwed i ddefnyddwyr, mae hyn o fudd i fusnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, sy'n chwarae rôl hanfodol yn economi'r DU a'n bywyd cenedlaethol ehangach.
- Mae gwaith y CMA yn helpu i ysgogi arloesedd, cynhyrchiant a thwf ar draws yr economi ac ym mhob un o 4 gwlad y DU. Er y gall rhai darnau unigol o'n gwaith ganolbwyntio'n uniongyrchol ar grŵp penodol o bobl neu

fusnesau, mae i'n gwaith fanteision ehangach, systemig sy'n bwysig i gefnogi economi'r DU yn ei chyfanrwydd.

Sut rydym yn eu gwasanaethu – **Hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg:**

- Fel awdurdod cystadleuaeth y DU, mae hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol yn greiddiol i'n gwaith. Prif ddyletswydd statudol y CMA yw hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr y tu mewn a'r tu allan i'r DU. Rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi o ran y gyfraith cystadleuaeth, cynlluniau uno ac ymchwilio i'r farchnad i sicrhau canlyniadau marchnadoedd cystadleuol. Rydym hefyd yn rhoi cyngor i lunwyr polisi a gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn annog cystadleuaeth effeithiol.
- Y tu hwnt i hyrwyddo cystadleuaeth, mae swyddogaethau statudol y CMA hefyd yn ymestyn i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae gan y CMA rolau gorfodi ac eirioli pwysig wrth fynd i'r afael ag ymddygiad annheg a gaiff ei gwmpasu gan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr. Rydym hefyd yn ystyried yr effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr wrth gynnal astudiaethau o farchnadoedd.

# 3. Uchelgais



4.1 Rydym yn mynegi uchelgais y CMA yn nhermau'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni i bobl, busnes ac economi gyfan y DU dros y tymor canolig a'r hirdymor. Nodir pob un isod.

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg**

4.2 Pan fydd pobl yn prynu nwyddau a gwasanaethau, dylent allu dibynnu ar y broses gystadleuol a bod yn hyderus bod busnesau'n delio â nhw ar delerau teg. Dylai gwaith y CMA sicrhau bod marchnadoedd cystadleuol yn rhoi dewis ac amrywiaeth ac yn ysgogi prisiau is. Byddwn yn defnyddio ein pwerau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr – ynghyd â'n rôl eirioli i roi cyngor i lywodraeth a'n hymgyrchoedd sy'n targedu'r cyhoedd – i sicrhau y caiff pobl eu grymuso i wneud y dewisiadau iawn iddynt hwy.

**Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu**

4.3 Mewn marchnad sy'n gweithredu'n effeithiol, dylai'r busnesau sy'n cynhyrchu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau mwyaf arloesol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr orau allu ffynnu, gyda buddiannau ehangach i'r economi a chymdeithas. Dylai camau gweithredu'r CMA rymuso busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, i gystadlu, gan gynnwys trwy fynd i'r afael ag ymddygiad lleiafrif bach o fusnesau sy'n ceisio niweidio defnyddwyr, cyfyngu ar gystadleuaeth neu atal marchnadoedd rhag gweithredu'n gywir.

**Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy**

4.4 Dylai gwaith y CMA i hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg gefnogi cynhyrchiant, arloesedd a thwf yn economi gyfan y DU. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod cystadleuaeth yn cefnogi economi gadarn a all dyfu'n gynaliadwy. Dylai ein gwaith ysgogi buddiannau ym mhob un o 4 gwlad y DU.

4.5 Mae Senedd y DU hefyd wedi rhoi cyfrifoldebau penodol i ni fonitro ac adrodd ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Cyflawnir y cyfrifoldeb hwnnw trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, sy'n rhan o'r CMA. Ar wahân i hynny mae'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn rhoi cyngor i awdurdodau cyhoeddus pan fyddant yn rhoi cymorthdaliadau sydd â'r potensial mwyaf i arwain at effeithiau sy'n ystumio cystadleuaeth a buddsoddiad.

# 4. Blaenoriaethau Tymor Canolig



5.1 Er mwyn cyflawni ein diben a'n huchelgais, rydym wedi pennu blaenoriaethau tymor canolig sy'n gysylltiedig â phob un o'r canlyniadau strategol sy'n rhan o'n huchelgais. Mae'r rhain yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd ac, yn eu tro, byddant yn llywio ein meysydd ffocws penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r blaenoriaethau hyn fwy neu lai yr un peth â'r rhai a bennwyd gennym y llynedd.

5.2 Eleni, rydym wedi gwneud mân newidiadau i'r blaenoriaethau tymor canolig sy'n ymwneud â'n huchelgais i sicrhau y gall economi gyfan y DU dyfu mewn ffordd gynhyrchiol a chynaliadwy. Pan wnaethom bennu ein strategaeth y llynedd, roedd economi'r DU yn dal i adfer yn dilyn pandemig COVID-19 ac roeddem yn pryderu am effeithiau'r achosion o darfu ar gyflenwad ar gadernid marchnadoedd allweddol. Felly, gwnaethom gynnwys blaenoriaeth benodol i hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth. Yn sgil yr heriau sy'n esblygu a wynebir gan economi'r DU, rydym wedi uno'r flaenoriaeth hon â'r flaenoriaeth tymor canolig i flaenoriaethu sectorau sy'n cyfrannu at arloesedd a chynhyrchiant. Rydym yn crynhoi ein blaenoriaethau tymor canolig yn  isod.

**Ffigur 3 Blaenoriaethau tymor canolig**

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg**

- Canolbwyntio'n gyson ar weithredu yn y meysydd lle mae defnyddwyr yn gwario'r rhan fwyaf o'u harian ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser, yn enwedig i'r bobl sydd angen help fwyaf.
- Diogelu pobl rhag arferion niweidiol
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant

**Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu**

- Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad agored i farchnadoedd
- Helpu sectorau sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu'n farchnadoedd twf uchel, arloesol a chystadleuol

**Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy**

- Helpu i gyflymu newid y DU i economi sero net.
- Blaenoriaethu sectorau sy'n cynnig y potensial mwyaf i gael effaith ar arloesedd, cynhyrchiant a hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth

5.3 Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio'r gweithgareddau lle mae gennym rywfaint o ddisgresiwn dros y gwaith a wnawn yn bennaf, fel gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr, astudiaethau ac ymchwiliadau marchnadoedd a'n gwaith eiriolaeth.[2]

5.4 O fewn y blaenoriaethau, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch pryd a sut i weithredu, byddwn yn parhau i gymhwyso'r gofynion sylfaenol canlynol.

**Gofynion sylfaenol**

Byddwn yn herio ein hunain i sicrhau bod ein gwaith yn gwneud y canlynol:

- Yn cyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg
- Yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, yn gyson â thrylwyrdeb a thegwch gweithdrefnol
- Yn defnyddio ein pecyn adnoddau i gyd

5.5 Ceir mwy o fanylion am bob blaenoriaeth tymor canolig, a'r gofynion sylfaenol, isod.

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a**

**<u>Canolbwyntio'n gyson ar weithredu yn y meysydd lle mae defnyddwyr yn gwario'r rhan fwyaf o'u harian ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser, yn enwedig i'r bobl sydd angen help fwyaf.</u>**

5.6 Mae'r CMA am sicrhau effaith wirioneddol i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gweithredu yn y meysydd sydd bwysicaf i bobl, fel:

- Symud o gwmpas a theithio
- Gofalu amdanom ni ein hunain ac eraill
- Cael rhywle i fyw
- Bwydo ein hunain a'n teuluoedd

---

[2] O ran rheoli camau uno, mae ein llwyth achosion yn dibynnu'n bennaf ar yr uniadau a gyhoeddir mewn cyfnod penodol.

- Dysgu, chwarae a chymdeithasu

5.7 Byddwn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r defnyddwyr hynny sydd angen help fwyaf. Gall pobl fod yn agored i niwed mewn cyd-destunau penodol ac mewn ffyrdd gwahanol. Wrth dargedu ein hymyriadau, byddwn felly'n ystyried y cyd-destun penodol y gall fod angen help arbennig ar bobl i'w diogelu rhag niwed a chael bargen deg.

**Diogelu pobl rhag arferion niweidiol**

5.8 Byddwn yn defnyddio ein pwerau o dan y gyfraith cystadleuaeth a'r gyfraith defnyddwyr i ddiogelu pobl rhag arferion busnes niweidiol. Mae hyn o fudd uniongyrchol i bobl ond mae hefyd o fudd i'r busnesau hynny sy'n gwneud y peth iawn, ac na ddylent wynebu anfantais gystadleuol o ganlyniad i hynny. Un thema glir sy'n rhedeg drwy ein gwaith yn y maes hwn fydd sicrhau y gall pobl wneud dewisiadau hyddysg, dilys yn seiliedig ar wybodaeth gywir.

**Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant**

5.9 Rhaid i ni hefyd gymryd camau yn erbyn busnesau sy'n torri cyfraith cystadleuaeth. Mae angen y camau hynny nid yn unig i fynd i'r afael â'r tramgwydd dan sylw ond hefyd er mwyn helpu i atal busnesau a allai gael eu temtio i dorri'r gyfraith fel arall. Yn y pen draw, mae hyn o fudd i bobl ar ffurf prisiau is a dewisiadau gwell.

## Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu

**Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad agored i farchnadoedd**

5.10 Mae cystadleuaeth trwy arloesedd yn cymell cynhyrchiant a dewis gwell i gwsmeriaid. Byddwn yn cymryd camau mewn marchnadoedd sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg i sicrhau y gall busnesau arloesol o bob maint gael mynediad effeithiol i'r farchnad er mwyn ysgogi'r broses gystadleuol.

**Helpu sectorau sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu'n farchnadoedd twf uchel, arloesol a chystadleuol**

5.11 Weithiau, gall y CMA fod yn fwy effeithiol pan fyddwn yn ymyrryd yn gynnar yn natblygiad marchnad. Yn yr achosion hynny, gallwn helpu i sicrhau bod y farchnad yn datblygu mewn ffordd gystadleuol. Gallwn wneud hynny mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys eiriolaeth ac astudiaethau o farchnadoedd.

**Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant**

5.12 Mae ein camau i atal ymddygiad gwrthgystadleuol o fudd i bobl, am y rhesymau a nodwyd uchod. Mae cwmnïau sy'n bargeinio'n deg, na ddylent fod dan anfantais am wneud y peth cywir, hefyd yn cael budd pan fydd y CMA yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd gadarn.

## Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy

**Helpu i gyflymu newid y DU i economi sero net**

5.13 Bydd y CMA yn parhau i gymryd camau i gyflymu'r newid i economi sero net a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Rydym eisoes wedi cymryd camau breision yn y maes hwn a byddwn yn adeiladu ymhellach ar hyn dros y flwyddyn sydd i ddod.

5.14 **Blaenoriaethu sectorau sy'n cynnig y potensial mwyaf i gael effaith ar arloesedd, cynhyrchiant a hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth** Wrth ystyried beth yn rhagor y gallwn ei wneud i gefnogi twf economi'r DU, bydd y CMA yn blaenoriaethu camau mewn sectorau a all gael effaith hynod gadarnhaol ar arloesedd a chynhyrchiant, er enghraifft:

- marchnadoedd sydd ar gam cynnar yn eu datblygiad ond sydd â'r potensial i dyfu'n sylweddol;
- marchnadoedd sy'n ymddangos fel pe bai ganddynt fylchau cynhyrchiant sylweddol a lle mae'r gystadleuaeth yn ymddangos yn dawel;
- marchnadoedd sy'n dangos dibyniaeth ormodol ar nifer cyfyngedig o gyflenwyr a lle y gall diffyg cystadleuaeth effeithiol, yn enwedig mewn marchnadoedd strategol, achosi risg o lesteirio'r gallu i gyflenwi nwyddau hanfodol a darparu gwasanaethau hanfodol.

## Gofynion sylfaenol

**Cyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg**

5.15 Rhaid i waith y CMA gyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg i bobl, busnesau ac economi gyfan y DU.

**Cyflawni ein gwaith mor gyflym â phosibl, yn gyson â thrylwyrdeb a thegwch gweithdrefnol**

5.16 Yn aml, mae angen gweithredu'n gyflym i gyflawni canlyniadau llwyddiannus. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth i ni ddewis pryd a sut i weithredu, gan gydnabod wrth gwrs bod angen i ni gydymffurfio â'r drefn briodol wrth ddefnyddio ein pwerau ffurfiol.

**Defnyddio ein pecyn adnoddau i gyd**

5.17 Gall y CMA weithredu gan ddefnyddio amrywiaeth o bwerau ffurfiol. Gallwn hefyd ymyrryd yn fwy anffurfiol, er enghraifft drwy eiriolaeth, ymgysylltu anffurfiol ac ymgyrchoedd gwybodaeth. Ein man cychwyn yw ystyried mater penodol cyn penderfynu ar yr adnodd mwyaf priodol.

## Galluogwyr craidd

5.18 Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn effeithiol ac yn gyson, rhaid i ni barhau i gryfhau a gwella'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym wedi nodi tri galluogydd craidd i gefnogi'r gweithgarwch hwn:

- Addasu ein model busnes
- Meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hanfodol
- Uwchraddio ein datganiad gwerth i gyflogeion

5.19 Fel sy'n wir am ein blaenoriaethau tymor canolig, rydym yn datblygu rhai o'n galluogwyr craidd eleni. O ran addasu ein model busnes, byddwn yn atgyfnerthu ein gallu i ddefnyddio adnoddau mewn modd hyblyg a dynamig, yn estyn ein hymdrechion i weithio gyda phartneriaid yn ddomestig ac yn rhyngwladol, ac yn ehangu ein defnydd o dechnolegau newydd yn ein gwaith. Drwy ddatblygu ac atgyfnerthu ein gallu, byddwn yn gwneud mwy o ymdrech i feithrin ein galluoedd fel rhag-reoleiddiwr (o ragweld pwerau newydd drwy'r Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr), ac wrth gyfathrebu'n strategol. Yn olaf, byddwn yn cryfhau ein datganiad gwerth i gyflogeion (sy'n hanfodol i'n galluogi i ddenu a chadw staff) drwy roi amrywiaeth o fentrau ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys camau i sicrhau bod pob aelod o'n staff yn gallu manteisio ar y cyfleoedd datblygu cywir ac yn cael eu grymuso i gyflawni. Rydym wedi nodi ein galluogwyr craidd yn fanylach isod, gan gynnwys y newidiadau hyn.

### Addasu ein model busnes

5.20 Er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd i'r eithaf, rydym yn addasu ein model busnes mewn tair ffordd:

- Gweithio mewn ffordd fwy hyblyg a dynamig
- Manteisio i'r eithaf ar ecosystem ehangach o arbenigedd a phartneriaid allanol, yn ddomestig ac yn rhyngwladol
- Ehangu ein defnydd o ddata, technoleg a deallusrwydd artiffisial

### Meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hanfodol

5.21 Byddwn yn atgyfnerthu neu'n datblygu'r galluoedd hanfodol canlynol:

- Cynnal rhagoriaeth ym 'mhroffesiynau' y CMA
- Mynd ati i ddatblygu ein galluoedd digidol, deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ymhellach
- Datblygu ein galluoedd fel rhag-reoleiddiwr mewn marchnadoedd digidol
- Cryfhau ein galluoedd sganio'r gorwel, eirioli a'n galluoedd cyfathrebu strategol

## Uwchraddio ein datganiad gwerth i gyflogeion

5.22 Staff dawnus y CMA yw sail ein llwyddiant. Yn gyffredinol, ni all y CMA dalu'r un cyflogau â'r rhai a gynigir gan fusnesau'r sector preifat sy'n recriwtio o'r un gronfa o staff, felly mae cynnig profiad o ansawdd uchel i gyflogeion a datganiad gwerth sy'n ystyried ffactorau y tu hwnt i gyflog yn hollbwysig i'w denu a'u cadw. Byddwn yn blaenoriaethu'r camau canlynol yn benodol:

- Rhoi cyfleoedd unigryw i'n staff gael effaith wirioneddol drwy'r gwaith a wneir ganddynt
- Gwella cyfleoedd dysgu a datblygu i bob aelod o staff
- Grymuso cyflogeion ar bob lefel i gyflawni canlyniadau effeithiol
- Sicrhau amgylchedd amrywiol, cynhwysol a pharchus
- Darparu amgylchedd gweithio hyblyg sy'n addasu i nodau personol

## Cysylltu ein blaenoriaethau a'n meysydd ffocws ag Egwyddorion Blaenoriaethu cyfredol y CMA

5.23 Mae'r CMA wedi diweddaru ei Egwyddorion Blaenoriaethu yn ddiweddar. Mae'n defnyddio'r rhain i lywio ei ddewisiadau o ran gwaith. Mae ein Hegwyddorion Blaenoriaethu yn cynnwys pum ystyriaeth allweddol:

- **Arwyddocâd strategol:** a yw camau gweithredu'r CMA yn y maes hwn yn cyd-fynd ag amcanion a strategaeth y CMA?
- **Effaith:** pa mor sylweddol yw effaith gadarnhaol debygol camau gweithredu'r CMA?
- **A yw'r CMA yn y sefyllfa orau i weithredu:** a oes dewis amgen yn lle camau gweithredu gan y CMA?
- **Adnoddau:** a oes gan y CMA yr adnoddau cywir i weithredu'n effeithiol?
- **Risg:** pa fathau o risgiau sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu'r CMA, a pha mor sylweddol ydynt?

5.24 Dylid darllen yr Egwyddorion Blaenoriaethu gan ystyried y Cynllun Blynyddol hwn, sy'n ychwanegu mwy o benodoldeb i'r egwyddor Arwyddocâd Strategol ac sy'n atgyfnerthu neu'n tanlinellu'r pedair egwyddor arall.

5.25 Mae'r Egwyddorion Blaenoriaethu yn adlewyrchu'r ffaith bod y CMA yn rhannu'r un cyfrifoldebau â chyrff eraill (fel rheoleiddwyr sector-benodol a'r Safonau Masnach), ac rydym yn cydnabod pa mor hanfodol ydyw i reoleiddwyr gydweithio ar faterion cyffredin. Mae'r CMA yn parhau i gymryd rhan yn Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU, sy'n creu cynghrair rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a rheoleiddwyr sectorau'r DU

sydd â rôl benodol i hyrwyddo cystadleuaeth yn eu sectorau. [3] Mae'r CMA yn rhannu'r un cyfrifoldeb â'r rheoleiddwyr hyn mewn perthynas â hyrwyddo cystadleuaeth a chymhwyso pwerau cyfraith cystadleuaeth penodol yn y sectorau a reoleiddir. Nod Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU yw annog cystadleuaeth gryfach ym mhob rhan o'r economi er budd defnyddwyr ac atal ymddygiad gwrthgystadleuol yn y diwydiannau a reoleiddir.

5.26 At hynny, ochr yn ochr â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Ofcom a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, mae'r CMA yn cymryd rhan yn y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae'r Fforwm hwn yn fodd i wella'r cydweithio rhwng rheoleiddwyr gwahanol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebir wrth reoleiddio llwyfannau ar-lein mewn modd cydgysylltiedig. Mae'r Fforwm wedi mynd i'r afael â nifer o ddatblygiadau allweddol ym maes technoleg ddigidol dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyhoeddi ei syniadau mewn meysydd fel Technolegau Cwantwm a'r materion y dylai rheoleiddwyr fod yn eu hystyried nawr er mwyn paratoi ar gyfer byd sydd wedi'i alluogi gan gwantwm.

5.27 Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o gydweithio â rheoleiddwyr eraill ac awdurdodau perthnasol, yn enwedig lle y byddai dull gweithredu o'r fath yn cyflawni'r canlyniadau gorau i bobl a busnesau. Er enghraifft, gwnaethom lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Banc Lloegr ym mis Rhagfyr yn esbonio sut y bydd y CMA a'r Banc yn cydweithredu mewn ffordd ragweithiol ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, yn rhannu gwybodaeth briodol i gefnogi ein priod swyddogaethau statudol, ac yn bwrw ati'n fwy cyffredinol i feithrin diwylliant o gydweithio.

[3] Y diwydiannau hyn yw'r Awdurdod Hedfan Sifil, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem), Awdurdod Rheoleiddio Cyfleustodau Gogledd Iwerddon, y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom), Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd, y Rheoleiddiwr Systemau Talu, a'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat).

# 5. Meysydd Ffocws ar gyfer 2024/25



5.1 Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut y byddwn yn rhoi ffocws i'n gwaith yn y tymor agos a thros y cyfnod adrodd o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024, wrth i ni weithio tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tymor canolig mewn ffordd sy'n sicrhau bod ymgorffori ein strategaeth newydd wrth wraidd yr hyn a wnawn. Yn gyntaf, nodwn rai o'n cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi'u trefnu yn ôl tri chanlyniad strategol ein huchelgais.

**Cyflawniadau allweddol yn 2023-24**

**Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg**

5.2 Mae'r CMA wedi cymryd camau cyson i gefnogi defnyddwyr a helpu i ffrwyno pwysau costau byw mewn meysydd o wariant hanfodol. Rydym yn deall yr effeithiau gwirioneddol iawn y mae'r pwysau hyn yn eu cael ar fywydau pobl, a'r angen mewn rhai achosion i weithredu'n gyflym ac yn effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau. Yn wyneb yr argyfwng costau byw, nid ydym wedi ofni gweithredu'n gyflym nac ategu ein pwerau ffurfiol drwy gymryd camau anffurfiol, er enghraifft cynnal adolygiadau cyflym o farchnadoedd cyn lansio astudiaethau ffurfiol o farchnadoedd. Rydym wedi gwneud hyn ar sawl achlysur, gan gynnwys yn achos yr astudiaeth o'r farchnad tanwydd ffordd a gwblhawyd gennym ym mis Gorffennaf. Mae hyn yn adeiladu ar ein hadolygiad cyflym cychwynnol yn 2022, ac mae wedi canfod nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol yn y maes hwn. Yn dilyn argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar yr astudiaeth o'r farchnad, a oedd yn cynnwys cyflwyno corff monitro statudol newydd a chynllun rhannu data prisiau amser real er mwyn dwyn y diwydiant i gyfrif, rydym yn croesawu penderfyniad diweddar Llywodraeth y DU i roi pwerau newydd i'r CMA fonitro prisiau tanwydd a rhoi diweddariadau cyhoeddus rheolaidd ar y sefyllfa o ran cystadleuaeth ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol ym marchnad manwerthu tanwydd ffordd y DU. Yn y cyfamser, rydym wedi gweithredu'n gyflym i roi cynllun gwirfoddol ar waith i'r prif fanwerthwyr tanwydd ddarparu eu prisiau dyddiol, ac rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau diweddaru bob rhyw bedwar mis ar y gwaith o fonitro tanwydd ffordd, y cyhoeddwyd y cyntaf ohonynt ym mis Tachwedd.

5.3 Maes pwysig arall o weithgarwch mewn perthynas â'r rhan hon o'n huchelgais fu ein gwaith yn y sector nwyddau groser. Yn 2023, gwnaethom gynnal adolygiad o arferion prisio fesul uned ymhlith manwerthwyr nwyddau groser mawr gan ystyried a yw cystadleuaeth wan neu aneffeithiol wedi bod yn cyfrannu at chwyddiant uchel. Gan adeiladu ar y gwaith helaeth hwn,

gwnaethom lansio astudiaeth o'r farchnad mewn perthynas â fformiwla babanod ym mis Chwefror, mewn ymateb i bryderon y gallai defnyddwyr fod yn talu gormod am y cynnyrch hanfodol hwn. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried a yw'r cymhellion priodol ar gael i gyflenwyr gynnig fformiwla babanod am brisiau cystadleuol, ac a yw defnyddwyr yn cael y wybodaeth gywir, ar yr adeg gywir, i wneud dewisiadau effeithiol. Yn ogystal, rydym wedi lansio adolygiad o brisiau cynlluniau teyrngarwch gan archfarchnadoedd a fydd yn ystyried a yw unrhyw agweddau ar brisiau teyrngarwch yn gamarweiniol.

5.4 Gan droi at agwedd arall ar ein hymdrechion i ddiogelu defnyddwyr, mae ein gwaith ym maes saernïaeth dewis ar-lein (yr effaith y mae dyluniad amgylcheddau ar-lein yn ei chael ar ein penderfyniadau a'n gweithredoedd) wedi peri i ni gymryd camau cadarn i atal defnyddwyr rhag cael eu camarwain. Er enghraifft, rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â nifer o bryderon y gallai arferion gwerthu ar-lein Emma Sleep, Wowcher a Simba Sleep fod yn gamarweiniol. Mae'r busnesau hyn wedi defnyddio amseryddion sy'n cyfrif i lawr ar eu gwefannau, yn ogystal â honni bod galw mawr am gynhyrchion neu fod cynhyrchion yn cael eu cynnig am brisiau gostyngol, mewn ffyrdd sy'n peri pryder i ni y gallai defnyddwyr gael eu camarwain ganddynt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r busnesau hyn gyda'r bwriad o ymdrin â phryderon y CMA. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar lythyr agored cynharach y CMA a roddodd ganllawiau manwl i fanwerthwyr ar-lein i'w helpu i ddeall cyfraith defnyddwyr yn well ac i gydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth honno fel y mae'n gymwys ym maes saernïaeth dewis ar-lein, sef maes sy'n datblygu'n gyflym.

5.5 Mae cadarnhau bod busnesau yn cydymffurfio â rhwymedïau a osodwyd gennym yn flaenorol yn rhan allweddol arall o'n gwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn cael bargen dda. Un enghraifft yw ein gwaith i wella cydymffurfiaeth ysbytai a meddygon ymgynghorol â Gorchymyn Ymchwilio i'r Farchnad Gofal Iechyd Preifat 2014, a ddeilliodd o ymchwiliad gan y CMA i'r farchnad. O ganlyniad i'n camau gorfodi eleni, mae tri ysbyty wedi cytuno ar gynlluniau i gydymffurfio â'r Gorchymyn ac mae 88 o feddygon ymgynghorol hefyd wedi cael eu targedu, gan alluogi cleifion i gymharu cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd preifat a gynigir gan feddygon ymgynghorol. Rydym hefyd wedi gweithio i leihau costau i'r gwasanaethau brys drwy gyflwyno rheolaethau ar daliadau ar y rhwydwaith radio a ddefnyddir gan yr heddlu, gwasanaethau tân, gwasanaethau ambiwlans a gwasanaethau brys eraill i gyfathrebu'n ddiogel. Bydd hyn yn cywiro achosion o godi taliadau gormodol gan Motorola gwerth bron i £200m bob blwyddyn ers 2020, gan ddiogelu trethdalwyr, ond gan ganiatáu ar yr un pryd i Motorola barhau i fuddsoddi yn y Rhwydwaith Tonnau Awyr gan felly sicrhau y caiff ansawdd a diogelwch eu cynnal.

5.6 Mae meysydd ychwanegol o waith sy'n mynd rhagddo yn cynnwys ein hadolygiad o'r sector milfeddygol, sy'n ystyried a yw perchnogion anifeiliaid anwes yn cael bargen dda ac yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am driniaeth ar gyfer eu hanifeiliaid anwes. Cafodd yr adolygiad gryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau darlledu, ac ymatebodd mwy na 50,000 o bobl i'n cais am wybodaeth, gan gynnwys perchnogion anifeiliaid anwes a'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant. Rydym yn ymgynghori ar wneud Atgyfeiriad ar gyfer Ymchwiliad i'r Farchnad, a fyddai'n ein galluogi i ystyried graddau'r gystadleuaeth yn y sector milfeddygol ymhellach ac i ystyried a yw defnyddwyr o bosibl yn talu gormod am rai triniaethau a meddyginiaethau ar gyfer anifeiliaid anwes.

5.7 Rydym hefyd yn parhau i weithredu yn y sector tai. Daeth ein astudiaeth o'r farchnad adeiladu tai i ben ym mis Chwefror, gan nodi'r opsiynau o ran diwygiadau y gellid eu gwneud i systemau cynllunio i gefnogi mwy o weithgarwch adeiladu tai, yn ogystal â mesurau eraill i leihau'r effaith andwyol y mae trefniadau preifat i reoli amwynderau ar ystadau a phroblemau o ran ansawdd cartrefi newydd yn ei chael ar ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid â diddordeb am ein cynigion a'r camau gweithredu dilynol posibl yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, rydym wedi lansio ymchwiliad i wyth cwmni adeiladu tai ym Mhrydain Fawr ar ôl dod o hyd i dystiolaeth yn ystod ein hastudiaeth o'r farchnad a oedd yn awgrymu y gallai rhai cwmnïau adeiladu tai fod yn rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif â'u cystadleuwyr mewn ffordd a allai leihau'r gystadleuaeth a dylanwadu ar y trefniadau ar gyfer adeiladu ar safleoedd a phrisiau cartrefi newydd. At hynny, rydym wedi datblygu prosiect ymchwil defnyddwyr yn y sector rhentu preifat er mwyn ymchwilio i nifer o bryderon pwysig a nodwyd gan randdeiliaid. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig a fydd yn helpu landlordiaid, tenantiaid ac asiantiaid gosod eiddo i ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau.

5.8 Nid yw'r rhan hon o'n huchelgais yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddefnyddwyr, ond hefyd ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd llafur, ac un o feysydd ffocws pwysig y CMA eleni fu marchnadoedd llafur y DU. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lansio dau ymchwiliad yn y sector hwn. Mae'r rhain yn ymwneud â chynhyrchwyr a darlledwyr teledu ac arferion cyflogi staff (un yn cynnwys chwaraeon ac un fel arall), yn ogystal â phrynu gwasanaethau gan ddarparwyr llawrydd. Rydym wedi adeiladu ar y gwaith hwn drwy gyhoeddi adroddiad ar gystadleuaeth a phŵer y farchnad ym marchnadoedd llafur y DU, sy'n nodi tueddiadau o ran crynodiad marchnadoedd llafur y DU a phŵer cyflogwyr yn y marchnadoedd hynny dros yr 20 mlynedd diwethaf, yn ymchwilio i'r cyswllt rhwng crynodiad marchnadoedd llafur a'r canlyniadau i weithwyr, ac yn tynnu sylw at sut mae

technolegau a sefydliadau marchnadoedd llafur yn llywio marchnadoedd llafur yn y DU. Mae'n ddarn o waith nodedig, a dyma'r adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd gan yr Uned Microeconomeg a sefydlwyd yn ddiweddar gan y CMA, sy'n cynnig gwasanaeth dadansoddi ac arbenigedd annibynnol ar faterion gan gynnwys cystadleuaeth, arloesedd a chynhyrchiant.

5.9 Mae ein gwaith ar farchnadoedd llafur wedi ategu ein hymdrechion ehangach i atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys y rheini lle mae ymddygiad o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid y wlad a gwariant pob dydd defnyddwyr. Er enghraifft, ym mis Mai, canfyddiad dros dro y CMA oedd bod pump o'r banciau mawr – Citi, Deutsche Bank, HSBC, Morgan Stanley a Royal Bank of Canada – wedi torri cyfraith cystadleuaeth yn dilyn yr argyfwng ariannol drwy gymryd rhan mewn cyfres o achosion o gyfnewid gwybodaeth gystadleuol sensitif ar-lein ar sail un i un. Roedd hyn yn ymwneud â phrisio ac agweddau eraill ar eu strategaethau masnachu ar fondiau'r DU, a allai fod wedi atal trethdalwyr, cynilwyr pensiynau a sefydliadau ariannol rhag manteisio ar fuddiannau cystadleuaeth lawn am y cynhyrchion hyn, gan gynnwys lleihau costau benthyca i'r eithaf. Canfu'r CMA hefyd fod JD Sports a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerlŷr wedi torri cyfraith cystadleuaeth drwy gynllwynio i atal cystadleuaeth am ddillad â brand Dinas Caerlŷr arnynt, gan gynnwys copïau o'r cit, yn y DU, gan olygu y gallai cefnogwyr y clwb fod wedi talu mwy nag y byddent wedi ei dalu fel arall.

**<u>Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu</u>**

5.10 Rydym wedi bod yn gadarn o ran ein hymdrechion i gefnogi busnesau ym mhob rhan o'r economi. Rydym wedi defnyddio ein pwerau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac annog cystadleuaeth – yn enwedig mewn sectorau newydd, fel marchnadoedd digidol. Un o'n darnau mwyaf proffil uchel o waith hyd yma fu ein hymchwiliad manwl i fwriad Microsoft i gaffael Activision, y gwnaethom ei rwystro yn wreiddiol am ein bod yn pryderu y byddai'n cael effaith andwyol ar gystadleuaeth yn y farchnad gemau yn y cwmwl sy'n tyfu'n gyflym. Yn y pen draw, gwnaethom glirio fersiwn wedi'i hailstrwythuro o'r cynnig ar ôl i Microsoft ymateb i'n pryderon drwy sicrhau y byddai'r hawliau ffrydio yn y cwmwl ar gyfer gemau cyfrifiadurol a chonsol a gynhyrchir gan Activision dros y 15 mlynedd nesaf yn cael eu trosglwyddo i gystadleuydd annibynnol cryf. Drwy gynnal cystadleuaeth agored yn y farchnad gemau yn y cwmwl, mae'r dull gweithredu hwn wedi sicrhau y gall amrywiaeth o fusnesau arloesol barhau i ffynnu ac y gall pobl fanteisio ar brisiau mwy cystadleuol, gwasanaethau gwell, a mwy o ddewis dros y blynyddoedd i ddod.

5.11 Ym mis Tachwedd, gwnaethom dderbyn ymrwymiadau cyfreithiol gyfrwymol gan Amazon a Meta a fydd yn sicrhau cystadleuaeth deg ar eu llwyfannau manwerthu, er budd gwerthwyr a defnyddwyr. Bydd miloedd o werthwyr

annibynnol yn y DU sy'n defnyddio Amazon Marketplace yn cael budd o ymrwymiadau Amazon, sy'n cynnwys rhoi cyfle teg i'w cynigion gael eu cynnwys yn y 'Buy Box', a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid i brynu eitemau ar Amazon. Bydd ymrwymiadau a sicrhawyd gan Meta, sy'n cynnwys caniatáu i gystadleuwyr Facebook Marketplace sy'n hysbysebu ar lwyfannau Meta ddewis atal eu data rhag cael eu defnyddio i wella Facebook Marketplace, a fydd yn golygu na all y cwmni ddefnyddio data cwsmeriaid sy'n hysbysebu er mwyn rhoi mantais annheg iddo'i hun.

5.12 Rydym hefyd wedi dechrau ymchwiliad manwl i wasanaethau seilwaith cwmwl cyhoeddus, yn dilyn astudiaeth gychwynnol o'r farchnad a gynhaliwyd gan Ofcom. Disgwylir y bydd hyn yn ffocws allweddol i'r CMA dros y flwyddyn i ddod ac yn ymyriad sylweddol mewn marchnad gwerth £7.5bn sy'n sail i lu o wasanaethau ar-lein – o'r cyfryngau cymdeithasol i fodelau sylfaenol deallusrwydd artiffisial – gan sicrhau bod cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad hon yn hanfodol. At hynny, yn dilyn achos ymgyfreitha a ddyfarnodd o blaid y CMA, aethom ati'n ddiweddar i ailddechrau ein hymchwiliad i'r farchnad mewn perthynas â phorwyr gwe ar ddyfeisiau symudol a'r prosesau ar gyfer dosbarthu gwasanaethau gemau cwmwl drwy siopau apiau ar ddyfeisiau symudol yn y DU.  Bydd yr ymchwiliad hwn yn ystyried a oes angen ymyriadau penodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i fusnesau a defnyddwyr.

5.13 Y tu hwnt i'r sector digidol, rydym wedi ei gwneud hi'n haws i gwmnïau cyffuriau gydweithio i ddatblygu triniaethau hanfodol i'w defnyddio yn y GIG drwy gyhoeddi datganiad ym mis Tachwedd yn egluro na chaiff blaenoriaeth ei rhoi i ymchwilio i fathau penodol o ymgysylltu rhwng cwmnïau cyffuriau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae'r rhain yn ymwneud â 'therapïau cyfunol', sy'n cyfuno dau gyffur unigol neu fwy mewn un driniaeth a all sicrhau canlyniadau iechyd gwell i gleifion. Roedd ein datganiad yn ymateb i bryderon rhanddeiliaid y gallai'r CMA ymyrryd er mwyn atal y mathau hyn o gydweithio o dan gyfraith cystadleuaeth. Gweithiodd y CMA yn agos gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector i gyflawni'r gwaith hwn, gan gynnwys NHS England, Cymdeithas Brydeinig y Diwydiant Fferyllol, a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

**<u>Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy</u>**

5.14 Mae'r CMA wedi cefnogi twf cynaliadwy drwy amrywiaeth o ymyriadau eleni. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i helpu i lywio marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg er mwyn diogelu cystadleuaeth effeithiol a chefnogi arloesedd. Un enghraifft yw ein hadolygiad cychwynnol o fodelau sylfaenol deallusrwydd artiffisial. Mae hyn wedi helpu i feithrin dealltwriaeth gynnar o'r farchnad berthnasol a sut y gallai'r defnydd o fodelau sylfaenol ddatblygu, gan gynnwys

y cyfleoedd a'r risgiau posibl. Gwnaethom gynnig cyfres o egwyddorion ym mis Medi er mwyn sicrhau bod diogelu defnyddwyr a chystadleuaeth iach wrth wraidd prosesau datblygu cyfrifol a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn y dyfodol. Gan nodi dechrau, yn hytrach na diwedd, gwaith gan y CMA, byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ein syniadau maes o law, gan gynnwys yr ymateb i'r egwyddorion a sut maent wedi cael eu mabwysiadu.

5.15 Yn fwy cyffredinol, o ran marchnadoedd digidol, mae'r CMA wedi gwneud gwaith paratoi helaeth wrth ddisgwyl pwerau statudol newydd i oruchwylio cyfundrefn o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol. Un o nodweddion allweddol y gyfundrefn newydd fydd defnydd y CMA o rag-adnoddau i nodi problemau mewn marchnadoedd digidol a mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys gosod gofynion wedi'u targedu a'u teilwra ar y cwmnïau mwyaf pwerus i gyd-fynd â'u busnesau a'u gweithgareddau gwahanol. Mae'r rhain yn bwerau newydd sylweddol, a byddwn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i'w cymhwyso, ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, dros y flwyddyn sydd i ddod. Ym mis Ionawr, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o'n dull amodol ar gyfer rhoi cyfundrefn cystadleuaeth newydd y Marchnadoedd Digidol ar waith, sy'n nodi'r egwyddorion a fydd yn tywys ein dull. Mae hyn yn cynnwys sut y byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf i bobl, busnesau ac economi'r DU, gan weithredu mewn ffordd dryloyw ac mewn ffordd sy'n cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'r Uned Marchnadoedd Digidol yn parhau i feithrin cydberthnasau ag amrywiaeth o randdeiliaid domestig a rhyngwladol, mae wrthi'n gwneud gwaith recriwtio ar raddfa fawr ac yn datblygu canllawiau drafft ehangach a fydd yn destun ymgynghoriad cyn i ni ddechrau rhoi'r gyfundrefn ar waith.

5.16 Hefyd yn gysylltiedig â'r rhan hon o'n huchelgais, rydym wedi gwneud amrywiaeth o waith i ddiogelu cwsmeriaid rhag honiadau amgylcheddol camarweiniol, er enghraifft yn y sector gwresogi ac inswleiddio gwyrdd. Yn dilyn cais am wybodaeth, nododd ein hadroddiad ar y canfyddiadau cychwynnol ym mis Mai amrywiaeth o faterion yn y sector, gan gynnwys mewn perthynas â phrofiad defnyddwyr o brynu cynhyrchion ac arferion busnes fel gwyrddgalchu (gwneud honiadau ffug neu ormodieithiol am rinweddau amgylcheddol cynnyrch). Gan weithredu ar y canfyddiadau hyn, gwnaethom droi ein sylw at gefnogi defnyddwyr sy'n awyddus i brynu cynhyrchion gwresogi ac inswleiddio'r cartref gwyrdd drwy gyhoeddi canllaw i ddefnyddwyr, lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth ehangach, ac ategu hyn drwy gyflwyno cyfres o egwyddorion arfer da ar gyfer cyrff sicrhau ansawdd er mwyn gwella safonau yn y sector. At hynny, rydym hefyd wedi cymryd camau penodol drwy lansio ymchwiliad i Worcester Bosch mewn perthynas â honiadau gwyrdd a allai fod yn gamarweiniol am y defnydd o hydrogen yn ei

foeleri ac anfon llythyrau rhybudd at 12 o fusnesau eraill sy'n cymryd rhan mewn arferion tebyg.

5.17 Gan ystyried datblygiadau yn y dyfodol mewn marchnadoedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, mae'r CMA wedi cymryd camau i helpu busnesau i gydweithio i gyflawni nodau amgylcheddol yn unol â chyfraith cystadleuaeth. Gwnaethom gyhoeddi ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd ym mis Hydref yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth. Er mwyn adeiladu ar hyn, rydym yn ymrwymedig i weithredu polisi drws agored lle gall sefydliadau gysylltu â'r CMA i gael canllawiau anffurfiol ar fentrau cynaliadwyedd amgylcheddol arfaethedig. Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi ein canllawiau anffurfiol cyntaf o dan y polisi hwn i'r Sefydliad Masnach Deg, mewn perthynas â chytundeb cynaliadwyedd amgylcheddol a oedd yn ymwneud â bananas, coffi a choco Masnach Deg. Rydym yn disgwyl cyhoeddi mwy o enghreifftiau o'n canllawiau anffurfiol yn ystod y flwyddyn nesaf.

5.18 Rydym hefyd wedi helpu llunwyr polisïau yn y llywodraeth i nodi sut y gallai polisïau neu gynigion gwariant newydd effeithio ar gystadleuaeth mewn marchnadoedd drwy gyhoeddi diweddariad sylweddol i Ganllawiau'r CMA ar Asesu Cystadleuaeth ym mis Gorffennaf, sydd bellach yn cynnwys ffocws ychwanegol ar arloesi. Gall swyddogion polisi ddefnyddio'r canllawiau wrth gynnal asesiadau o effaith cynigion rheoleiddiol, neu wrth arfarnu polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Rydym bellach yn mynd ati i hyrwyddo'r canllawiau hyn ym mhob rhan o'r llywodraeth, gan gynnwys drwy gynnig hyfforddiant i swyddogion polisi ac economegwyr y llywodraeth.

5.19 Rhoddwyd cyfrifoldebau penodol i'r CMA roi cyngor i'r llywodraeth ar gymorthdaliadau, drwy'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, ac ar fasnach o fewn y DU, drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Dechreuodd yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau gyflawni ei swyddogaethau ym mis Ionawr 2023 ac mae wedi cyhoeddi mwy na 30 o adroddiadau yn ystod y flwyddyn hon mewn perthynas â chymorthdaliadau a gynigiwyd gan amrywiaeth o awdurdodau cyhoeddus ym mhob rhan o lywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig a llywodraeth leol. Er nad yw cyngor yr Uned yn gyfrwymol, mae ei hadroddiadau yn darparu gwerthusiad annibynnol ac yn galluogi awdurdod cyhoeddus i fireinio ei syniadaeth, gan gynnwys a yw'n dymuno addasu cymhorthdal cyn ei ddyfarnu, neu ei ddyfarnu o gwbl. Mae'r Uned hefyd wedi datblygu'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaeth fonitro statudol, a lansiodd ymgynghoriad ar ei chynigion ym mis Chwefror.

5.20 Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU nifer o benodiadau i banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol – sef panel annibynnol o arbenigwyr o bob cwr o'r DU a fydd yn helpu'r Swyddfa i gyflawni ei swyddogaethau statudol, gan gynnwys darparu cyngor anghyfrwymol i lywodraethau ledled y DU ar

effeithiau economaidd cynigion rheoleiddiol. Maes o law, bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cyhoeddi ei hail adroddiad blynyddol ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU, gan adeiladu ar yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd ganddi yn 2023. Mae diweddariad i strategaeth ddata'r Swyddfa hefyd wrthi'n cael ei ddatblygu, sy'n anelu at annog gwaith i gasglu a chyhoeddi data ar fasnach fewnol y DU gan weithredu fel catalydd ar gyfer gwella'r sail dystiolaeth.

5.21 Un o swyddogaethau allweddol eraill y CMA yw gweithredu fel y corff apêl ar gyfer penderfyniadau prisio a threfniadau rheoleiddio eraill a wneir gan reoleiddwyr penodol eraill o dan ddeddfwriaeth sector-benodol. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi ein dyfarniad ar benderfyniad rheoli prisiau a wnaed gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn dilyn apeliadau gan Faes Awyr Heathrow a thri chwmni hedfan. Canfu'r CMA nad oedd yr Awdurdod Hedfan Sifil yn anghywir o ran y rhan fwyaf o'r materion y cafwyd apeliadau yn eu cylch, ond gorchmynnodd iddo ailystyried tair rhan o'i benderfyniad. Bydd ein dyfarniad yn yr achos hwn yn helpu i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau nad yw prisiau'n rhy uchel i deithwyr ac annog buddsoddwyr i gynnal a gwella'r maes awyr dros amser.

5.22 Fel y nodir ym mharagraff 5.25 uchod, mae'r CMA hefyd yn chwarae rôl ehangach drwy rannu'r un cyfrifoldeb â'r rheoleiddwyr mewn perthynas â hyrwyddo cystadleuaeth a chymhwyso pwerau cyfraith cystadleuaeth penodol yn y sectorau a reoleiddir. Bydd 2024 yn nodi 10 mlynedd ers cyflwyno'r trefniadau cydredol presennol. Nod y trefniadau hyn yw atgyfnerthu'r cydweithio rhwng y CMA a rheoleiddwyr sector, gwneud mwy i orfodi cyfraith cystadleuaeth yn y sectorau a reoleiddir, ac annog canlyniadau o blaid cystadleuaeth yn y sectorau hyn. Mae'r garreg filltir hon yn gyfle pwysig i'r CMA arwain adolygiad o weithrediad ac effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau cydredol. I'r perwyl hwnnw, aeth y CMA ati i geisio adborth allanol, gan gyhoeddi cais am fewnbwn ym mis Awst 2023, er mwyn ein helpu i ddeall i ba raddau y mae rhannu pwerau cyfraith cystadleuaeth â'r CMA yn helpu rheoleiddwyr sector i gyflawni eu hamcanion, ac i ba raddau y mae'n atgyfnerthu'r gyfundrefn gystadleuaeth yn gyffredinol. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

**Sut y byddwn yn rhoi ffocws i'n gwaith yn 2024/25**

5.23 Gan adeiladu ar y cynnydd rydym eisoes wedi ei wneud tuag at gyflawni ein meysydd ffocws a'n blaenoriaethau tymor canolig, a chydnabod y ffordd y mae ein hamgylchedd gweithredu yn datblygu, rydym yn achub ar y cyfle i ddiweddaru ein meysydd ffocws ar gyfer 2024/25.

5.24 O ran elfen ‘pobl’ ein huchelgais, rydym wedi diweddaru ein maes ffocws ar weithredu mewn meysydd o wariant hanfodol i gynnwys mwy o bwyslais ar deithio. Yn benodol, byddwn yn adeiladu ar ein gwaith yn y farchnad tanwydd ffordd (a nodir ym mharagraff 6.2). Byddwn hefyd yn parhau i gyfeirio'n benodol at lety fel rhan o'r maes ffocws hwn. Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau â'n gwaith ar adeiladu tai a'n gwaith yn y sector rhentu preifat. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid â diddordeb am y cynigion a nodwyd yn ein hastudiaeth o'r farchnad a'r camau gweithredu dilynol posibl yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gymhwyso'r gyfraith diogelu defnyddwyr ar gyfer gosod eiddo.

5.25 O ran diweddariadau eraill sy'n gysylltiedig â ‘phobl’, rydym yn diweddaru ein maes ffocws sy'n ymdrin â diogelu defnyddwyr rhag arferion niweidiol er mwyn adlewyrchu cynnydd ein gwaith ar saernïaeth dewis ar-lein niweidiol ac arferion prisio camarweiniol. Rydym hefyd wedi ychwanegu maes ffocws newydd ar baratoi ar gyfer pwerau gorfodi defnyddwyr newydd a fydd yn cael eu darparu yn y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Ar yr amod y bydd Senedd y DU yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, bydd y model gorfodi gweinyddol newydd yn trawsnewid effaith ein gweithgarwch gorfodi defnyddwyr, gan ein grymuso i benderfynu pan fydd cyfraith defnyddwyr wedi cael ei thorri, yn hytrach na gorfod dwyn pob achos gerbron y llys, a'n galluogi i roi cosbau ariannol sylweddol yn uniongyrchol. Yn olaf, rydym wedi diwygio'r maes ffocws ar farchnad lafur y DU er mwyn dangos ein bod wedi symud ymlaen o nodi materion i fynd i'r afael â nhw.

5.26 Gan droi at elfen ‘busnes’ ein huchelgais, rydym wedi diweddaru ein maes ffocws ar fynediad at farchnadoedd digidol drwy ychwanegu cyfeiriad penodol at wasanaethau cwmwl er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y gwaith hwn dros y flwyddyn i ddod, yn dilyn cais gan Ofcom i ni gynnal ymchwiliad manwl i'r farchnad hon.

5.27 Rydym hefyd wedi ehangu ein maes gwaith ar annog cystadleuaeth mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg er mwyn cynnwys diogelu defnyddwyr a chyfeirio'n benodol at ddatblygu a defnyddio modelau sylfaenol deallusrwydd artiffisial, gan adeiladu ar yr adolygiad cychwynnol a gynhaliwyd gennym yn 2023. Yn olaf, o ran ein maes ffocws ar atal ymddygiad gwrthgystadleuol, rydym wedi cynnig enghraifft ddangosol o ffocws posibl ar gyfer y gwaith hwn – ar atal grym y farchnad rhag cynyddu, yn enwedig lle y gallai hyn beri anfantais i gystadleuwyr arloesol a newydd-ddyfodiaid.

5.28 Rydym hefyd wedi diweddaru'r meysydd ffocws sy'n ymwneud ag elfen ‘economi’ ein huchelgais. Rydym wedi diweddaru'r maes ffocws ar gynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy er mwyn adlewyrchu cynnydd ein gwaith ers y llynedd, gan gynnwys ein rhaglen waith sylweddol ar honiadau

gwyrdd camarweiniol, gwaith i annog marchnadoedd cystadleuol ar gyfer technoleg hinsawdd, a chyflwyno ein Canllawiau ar Gytundebau Gwyrdd i fusnesau. Rydym hefyd wedi dwyn ynghyd y meysydd ffocws ar gefnogi arloesedd, cynhyrchiant, a hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth, er mwyn cysoni â diweddariadau cyfatebol i'n blaenoriaethau tymor canolig.

5.29 Fel yn achos pwerau defnyddwyr posibl, rydym wedi pwysleisio ein gwaith paratoi ar gyfer pwerau rheoleiddio statudol newydd o dan y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn y maes ffocws ar farchnadoedd digidol. Unwaith eto, bydd cyflwyno'r pwerau newydd hyn, yn amodol ar ewyllys Senedd y DU, yn nodi newid mawr yn ein gwaith. Byddant yn ein galluogi i ymyrryd yn fwy effeithiol mewn marchnadoedd digidol, gan ddefnyddio pwerau newydd a phenodol i reoleiddio cwmnïau rydym wedi dynodi 'Statws Marchnad Strategol' iddynt er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol a chefnogi arloesedd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn barod i wneud defnydd llawn o'r pwerau hyn, pan fyddant wedi cael eu rhoi.

5.30 Rydym yn crynhoi ein meysydd ffocws arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn Ffigur 4.

5.31 Nid yw ein meysydd ffocws arfaethedig yn gynhwysfawr o reidrwydd. Mae'r CMA yn debygol o wneud cryn dipyn o waith lle nad oes disgresiwn dros y 12 mis nesaf, er enghraifft adolygu cynigion uno a gweithio ar apeliadau rheoleiddiol. Mae hyn yn waith pwysig ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein gallu i gyflawni canlyniadau cryf dros bobl, busnesau ac economi'r DU – sydd yn aml yn uniongyrchol berthnasol i'n meysydd ffocws.

5.32 At hynny, rydym yn cydnabod y bydd angen i ni hefyd ymateb yn hyblyg i ddatblygiadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn lle y bydd angen i ni gymryd camau i helpu pobl, busnesau ac economi'r DU.

**Ffigur 4 Meysydd ffocws**

| Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg | Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu | Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy |
|---|---|---|
| • Gweithredu ym meysydd gwariant hanfodol a lle mae pobl dan bwysau | • Galluogi busnesau arloesol i fanteisio ar farchnadoedd digidol fel gwasanaethau | • Gweithredu mewn marchnadoedd sy'n bodoli eisoes a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer |

ariannol penodol, fel teithio, gofalu amdanom ein hunain ac am eraill, a llety
- Ehangu ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr rhag arferion niweidiol mewn saernïaeth dewis ar-lein a phrisiau camarweiniol
- Paratoi i gymhwyso pwerau gorfodi defnyddwyr newydd i fynd i'r afael ag arferion niweidiol a chyflawni canlyniadau tecach
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol, gan gynnwys cartelau ym maes caffael cyhoeddus a meysydd eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar wariant cyhoeddus a gwariant aelwydydd
- Mynd i'r afael â materion posibl ynghylch cystadleuaeth ym marchnadoedd llafur y DU

cwmwl, e-fasnach a hysbysebion digidol
- Annog cystadleuaeth a diogelwch defnyddwyr effeithiol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys datblygu a defnyddio modelau sylfaenol deallusrwydd artiffisial
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol, gan gynnwys lle mae'n atgyfnerthu neu'n ehangu grym y farchnad neu fel arall yn rhoi cystadleuwyr a gweithredwyr arloesol dan anfantais

cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy, gan gynnwys drwy ehangu ein gwaith ar honiadau gwyrdd, annog marchnadoedd cystadleuol ym maes technoleg hinsawdd a rhoi ein Canllawiau Cytundebau Gwyrdd ar waith
- Nodi a gweithredu mewn meysydd lle y gallwn ddylanwadu ar ddatblygiad marchnadoedd mewn ffordd sydd o blaid cystadleuaeth a chael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar arloesedd, cynhyrchiant, a hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth
- Sicrhau bod marchnadoedd digidol yn gystadleuol a'n bod mewn sefyllfa dda i gymhwyso pwerau statudol newydd ar gyfer rheoleiddio cwmnïau rydym wedi dynodi Statws Marchnad Strategol iddynt
- Rhoi cyngor i lywodraethau i gefnogi prosesau masnachu effeithiol rhwng gwledydd y DU drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a gweithredu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau fel rhan o'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau gwledydd y DU drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a gweithredu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau fel rhan o'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau

# 6. Mesur ein Heffaith

6.1 Fel corff cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn dangos sut rydym yn cyflawni'r mandad a roddwyd i ni gan Senedd y DU. Gan ein bod yn cael ein hariannu gan y trethdalwr, rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i ddangos ein bod yn sicrhau effaith a gwerth gwirioneddol er budd y rhai a wasanaethwn. Ein nod yw darparu'r tryloywder a'r atebolrwydd hwn drwy werthuso a rhannu effaith ein gwaith yn rheolaidd drwy ein Hasesiad Effaith blynyddol, ein Cynllun Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae ein Hasesiad Effaith blynyddol yn nodi budd ariannol uniongyrchol ein gwaith i ddefnyddwyr dros gyfnod treigl o dair blynedd, mewn ymateb i ofyniad a bennwyd gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn dangos bod y CMA yn sicrhau gwerth cryf am arian yn gyson yn ein holl swyddogaethau: mwy nag £20 am bob £1 o arian y trethdalwr, sy'n fwy o lawer na'r targed o £10:1 a bennwyd gan y Llywodraeth.

6.2 Er bod y cyfrifiad hwn yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r effaith y mae'r CMA yn ei chael, mae iddo nifer o gyfyngiadau. Yn bwysicaf oll, dim ond buddiannau ariannol uniongyrchol y gellir eu mesur neu eu hamcangyfrif yn ymarferol y mae ein Hasesiad Effaith yn eu hystyried. Nid yw'n ystyried effaith gwaith lle mae ymyriad y CMA yn debygol o sicrhau buddiannau sylweddol ond sy'n anodd eu mesur yn ddigon cadarn (er enghraifft ein gwaith ar gydymffurfiaeth, apeliadau rheoleiddiol, neu gynghori'r Llywodraeth). Nid yw ychwaith yn cynnwys y buddiannau anuniongyrchol sylweddol iawn a allai ddeillio o atal ymddygiad gwrthgystadleuol, er enghraifft. Felly, dim ond darlun rhannol y mae'n ei roi o'r buddiannau y mae'r CMA yn eu cyflawni dros bobl, busnesau ac economi'r DU, sy'n debygol o fod y fwy sylweddol na'r rhai a nodwyd.

6.3 Yn ein Cynllun Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol, rydym yn rhoi trosolwg o'r gwaith rydym wedi ei wneud a'r rheswm dros hynny. Wrth i'n rôl a'n cyfrifoldebau ddatblygu, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn mynd ati i feithrin a gwella dealltwriaeth o'n swyddogaethau a'r effaith gadarnhaol y mae ein gwaith yn ei chael dros bobl, busnesau ac economi'r DU. Wrth i ni roi elfennau ein dull strategol ar gyfer 2023/24 ar waith, rydym wedi ystyried y ffordd orau o gynyddu'r tryloywder a'r atebolrwydd hwn, gan gynnwys ymgynghori â'n Bwrdd.

6.4 Yn y dyfodol, rydym yn cynnig ategu ein Hasesiad Effaith blynyddol drwy roi darlun llawnach o'n heffaith. Gallai hyn gynnwys cyfeirio at ganlyniadau canfyddadwy a mesuradwy mewn meysydd lle mae'r CMA wedi gweithredu (er enghraifft ein gwaith achos, ein hastudiaethau o farchnadoedd, ein gweithgareddau ymgysylltu allanol); dangosyddion o ganfyddiadau

rhanddeiliaid ohonom ni a'n gwaith (data arolygon a gwaith ymchwil arall) astudiaethau academaidd sy'n rhoi cipolwg i ni ar effaith ein gwaith atal; a chanlyniadau ehangach, hirdymor i'r farchnad gyfan (drwy, er enghraifft, ein Hadroddiad ar y Sefyllfa o ran Cystadleuaeth). Ni ellir mesur hyn oll yn uniongyrchol. Serch hynny, credwn y bydd yn helpu i feithrin dealltwriaeth gliriach o'n gwaith a'r canlyniadau allanol cadarnhaol y mae'r CMA yn eu cyflawni.

6.5 Er y bydd yn cymryd peth amser i fireinio'r dull mwy cyfannol hwn o fesur ein heffaith ac adrodd arni, ein nod yw dechrau cyflwyno elfennau newydd yn ein hadroddiadau blynyddol dros y flwyddyn i ddod, a'u mireinio'n barhaus yn y dyfodol.

# 7. Adnoddau

7.1 Dyrannodd Adolygiad o Wariant 2021 gyllideb y CMA ar gyfer 2024/25 ar ffurf cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau (ac eithrio dibrisiant) o £126.3 miliwn a chyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf o £5.12 miliwn. Mae'r setliad hwn yn cyflawni swyddogaethau presennol y CMA yn ogystal â helpu'r CMA i ymgymryd â chyfrifoldebau a phwerau newydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU o dan y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr.

7.2 Mae Trysorlys EF yn ymrwymedig i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i'r CMA allu cyflawni ei gyfrifoldebau ychwanegol o ran monitro'r farchnad tanwydd ffordd o 2024/25 ymlaen.

7.3 Bydd cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf y CMA yn parhau, ymhlith pethau eraill, i gefnogi ymdrechion y CMA i ehangu i wledydd a rhanbarthau'r DU, ac i fuddsoddi mewn technoleg a dulliau trawsnewid digidol.

7.4 Bydd y cyllid a ddarparwyd ar gyfer 2024/25 yn sicrhau y gall y CMA barhau â'i waith hanfodol i helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg. Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr y CMA yn bersonol gyfrifol am ddiogelu'r cyllid cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano, am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra wrth ymdrin â chyllid cyhoeddus ac am weithredu a rheoli'r CMA o ddydd i ddydd. Caiff y Prif Swyddog Cyfrifyddu gymorth i gyflawni'r dyletswyddau hyn gan Swyddog Cyfrifyddu ychwanegol, sef y Prif Swyddog Gweithredu.

7.5 Fel yn y blynyddoedd a fu, rydym yn disgwyl dechrau 2024/25 gyda swm sylweddol o waith sy'n mynd rhagddo yn barod. Ar adeg ysgrifennu, mae 24 o ymchwiliadau uno (gan gynnwys 1 adolygiad Cam 2 byw), 11 o achosion gorfodi cystadleuaeth, 9 achos diogelu defnyddwyr, 1 astudiaeth o farchnad a 2 ymchwiliad i farchnadoedd ar waith. Ers mis Ebrill 2023, rydym wedi cyhoeddi 1 penderfyniad ar dorri rheolau, gan gyflwyno dirwyon gwerth £0.88m, yn ogystal â 2 benderfyniad ar ymrwymiadau. Yn ogystal, mae 4 o'n penderfyniadau yn destun apêl i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ar hyn o bryd. Gellir dod o hyd i bob un o'n hachosion ar dudalen achosion y CMA.

7.6 Mae Ffigur 5 isod yn dangos sut y cafodd amser staff y CMA ei rannu rhwng gwahanol fathau o waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys adnoddau a ddyrannwyd i swyddogaethau'r Uned Marchnadoedd Digidol, Swyddfa'r Farchnad Fewnol a'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau ac i'n gwaith arfaethedig, ein gwaith polisi a'n gwaith eirioli.

7.7 Caiff adnoddau eu dyrannu yn 2024/25 er mwyn sicrhau y gall y CMA gyflawni ei feysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn – gan sicrhau ar yr un pryd y gallwn ymgymryd â'r lefel sylweddol o waith annewisol (e.e. cynlluniau uno) rydym yn ei ddisgwyl yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd y CMA hefyd yn sicrhau digon o hyblygrwydd wrth ddyrannu ei adnoddau i'w alluogi i ymgymryd ag unrhyw waith ychwanegol fel sy'n ofynnol, gan gynnwys ymateb i unrhyw ddatblygiadau annisgwyl.

**Ffigur 5 Dosbarthiad staff yn ôl y math o waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf**



# 8. Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Uned Marchnadoedd Digidol | Sefydlwyd yr uned hon o fewn y CMA er mwyn dechrau gwaith i roi'r gyfundrefn o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol ar waith, ar yr amod y caiff y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr ei ddeddfu gan Senedd y DU. |
| Swyddfa'r Farchnad Fewnol | Mae'r Swyddfa yn rhan o'r CMA ac yn cefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Mae'n asesu a yw'r farchnad fewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn rhoi cyngor arbenigol ac annibynnol i Lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig. |
| Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau | Mae'r Uned yn rhan o'r CMA. Swyddogaeth wedi'i chreu gan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ydyw, sy'n darparu cyfundrefn i lywodraethu'r cymorthdaliadau a ddarperir yn y DU ar ôl iddi adael yr UE. |

# 9. Atodiad

## Diben

Helpu pobl, busnesau ac economi'r DU drwy hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol a mynd i'r afael ag ymddygiad annheg

## Uchelgais

- Gall pobl fod yn hyderus eu bod yn cael dewisiadau gwych a bargeinion teg
- Gall busnesau cystadleuol, sy'n bargeinio'n deg, arloesi a ffynnu
- Gall economi gyfan y DU dyfu'n gynhyrchiol ac yn gynaliadwy

## Blaenoriaethau Tymor Canolig

- Canolbwyntio'n gyson ar weithredu yn y meysydd lle mae defnyddwyr yn gwario'r rhan fwyaf o'u harian ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser, yn enwedig i'r bobl sydd angen help fwyaf
- Diogelu pobl rhag arferion niweidiol
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant

- Galluogi busnesau arloesol i gael mynediad agored i farchnadoedd
- Helpu sectorau sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu'n farchnadoedd twf uchel, arloesol a chystadleuol
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol mewn ffordd bendant

- Helpu i gyflymu newid y DU i economi sero net
- Blaenoriaethu sectorau sy'n cynnig y potensial mwyaf i gael effaith ar arloesedd, cynhyrchiant a hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth

## Meysydd Ffocws ar gyfer 2024/25

- Gweithredu ym meysydd gwariant hanfodol a lle mae pobl dan bwysau ariannol penodol, fel teithio, gofalu amdanom ein hunain ac am eraill, a llety
- Ehangu ein gwaith i ddiogelu defnyddwyr rhag arferion niweidiol mewn saernïaeth dewis ar-lein a phrisiau camarweiniol
- Paratoi i gymhwyso pwerau gorfodi defnyddwyr newydd i fynd i'r afael ag arferion niweidiol a chyflawni canlyniadau tecach
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol, gan gynnwys cartelau ym maes caffael cyhoeddus a meysydd eraill sy'n cael effaith uniongyrchol ar wariant cyhoeddus a gwariant aelwydydd
- Mynd i'r afael â materion posibl ynghylch cystadleuaeth ym marchnadoedd llafur y DU

- Galluogi busnesau arloesol i fanteisio ar farchnadoedd digidol fel gwasanaethau cwmwl, e-fasnach a hysbysebion digidol
- Annog cystadleuaeth a diogelwch defnyddwyr effeithiol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys datblygu a defnyddio modelau sylfaenol deallusrwydd artiffisial
- Atal ymddygiad gwrthgystadleuol, gan gynnwys lle mae'n atgyfnerthu neu'n ehangu grym y farchnad neu fel arall yn rhoi cystadleuwyr a gweithredwyr arloesol dan anfantais

- Gweithredu mewn marchnadoedd sy'n bodoli eisoes a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy, gan gynnwys drwy ehangu ein gwaith ar honiadau gwyrdd, annog marchnadoedd cystadleuol ym maes technoleg hinsawdd a rhoi ein Canllawiau Cytundebau Gwyrdd ar waith
- Nodi a gweithredu mewn meysydd lle y gallwn ddylanwadu ar ddatblygiad marchnadoedd mewn ffordd sydd o blaid cystadleuaeth a chael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar arloesedd, cynhyrchiant, a hyrwyddo cadernid drwy gystadleuaeth
- Sicrhau bod marchnadoedd digidol yn gystadleuol a'n bod mewn sefyllfa dda i gymhwyso pwerau statudol newydd ar gyfer rheoleiddio cwmnïau rydym wedi dynodi Statws Marchnad Strategol iddynt
- Rhoi cyngor i lywodraethau i gefnogi prosesau masnachu effeithiol rhwng gwledydd y DU drwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol, a gweithredu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau fel rhan o'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau

## Galluogwyr Craidd

**Addasu ein model busnes**

- Gweithio mewn ffordd fwy hyblyg a dynamig
- Manteisio i'r eithaf ar ecosystem ehangach o arbenigedd a phartneriaid allanol yn ddomestig ac yn rhyngwladol
- Ehangu ein defnydd o ddata, technoleg a deallusrwydd artiffisial

**Meithrin ac atgyfnerthu galluoedd hanfodol**

- Cynnal rhagoriaeth ym 'mhroffesiynau' y CMA
- Mynd ati i ddatblygu ein galluoedd digidol, deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ymhellach
- Datblygu ein galluoedd fel rhag-reoleiddiwr mewn marchnadoedd digidol
- Cryfhau ein galluoedd sganio'r gorwel, eirioli a'n galluoedd cyfathrebu strategol

**Uwchraddio ein datganiad gwerth i gyflogeion**

- Rhoi cyfleoedd unigryw i'n staff gael effaith wirioneddol drwy'r gwaith a wneir ganddynt
- Gwella cyfleoedd dysgu a datblygu i bob aelod o staff
- Grymuso cyflogeion ar bob lefel i gyflawni canlyniadau effeithiol
- Sicrhau amgylchedd amrywiol, cynhwysol a pharchus
- Darparu amgylchedd gweithio hyblyg sy'n addasu i nodau personol

## Gofynion Sylfaenol

Byddwn yn herio ein hunain i sicrhau bod ein gwaith:

- Yn cyflawni buddiannau gwirioneddol, amlwg
- Yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, yn gyson â thrylwyredd a thegwch gweithdrefnol
- Yn defnyddio ein pecyn adnoddau i gyd

E03016726
978-1-5286-4550-8